# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **14eg o Fai 2026** yng Nghanolfan Prenteg. Roedd opsiwn i fynychu yn rhithiol drwy Microsoft Teams.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | John Till (Cadeirydd), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg)<br><br>Er bod opsiwn i fynychu yn rhithiol, bu i bawb fynychu'r cyfarfod mewn person. |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd Stephen Churchman, Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | John Jones (Garndolbenmaen) |
| 4. | Datgan Buddiant: | RJ – Cynllunio – Ni gymerodd ran yn y drafodaeth |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | RW yn cynnig a GE yn eilio. Pawb yn cydweld. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Cyfrif Cadw HTB –** Dywedodd y Clerc ei bod wedi ceisio agor cyfrif ar-lein gyda Hampshire Trust Bank ddwywaith, ond heb lwyddiant. Ar ôl cysylltu â HTB, cadarnhawyd nad oedd cofnod o gyfrif wedi'i agor a gofynnwyd iddi roi cynnig arall. Penderfynwyd y dylai'r Clerc barhau i geisio a rhoi diweddariad yn y cyfarfod misol nesaf.<br><br>**Golan –** Cysylltodd Stephen Churchman â Rheolwr Galw Gwynedd, a eglurodd fod diffyg ysbeidiol yn y system daliadau ar y pryd. Roeddent wedi cysylltu â datblygwr y meddalwedd i ddatrys y broblem. Adroddodd MLW fod y mater bellach wedi'i ddatrys.<br><br>**Offer Fideo-gynadledda –** Mae'r Clerc wedi paratoi llythyr yn dilyn penderfyniad y Cyngor i drosglwyddo cyfrifoldeb am reoli'r offer fideo-gynadledda i'r Canolfannau/Neuaddau Pentref. Bydd y Clerc hefyd yn cysylltu ag Unllais i wirio'r llythyr cyn ei anfon.<br><br>**Difrod Safle Bws Garndolbenmaen** - Yr Heddlu wedi bod allan i weld Stephen Churchman i gael datganiad ganddo. Heb glywed dim pellach. |
| 7. | Mynwentydd: | **Cytundeb Gwastraff Masnachol 2026/27** - Wedi derbyn pris o £336 am y flwyddyn. Penderfynwyd derbyn y pris a pharhau gyda'r cytundeb. Pawb yn gytûn.<br><br>**Mynwent Penmorfa –** Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd, drwy Stephen Churchman, ynghylch y cyflenwad dŵr a'r ddarpariaeth bin ym Mynwent Eglwys Penmorfa. Nodwyd bod tair rhan i'r fynwent: un yn perthyn i'r Eglwys, un i'r Cyngor Cymuned, a'r rhan fwyaf diweddar i Gyngor Gwynedd. Ymwelodd GE â'r fynwent a chadarnhaodd fod y cyflenwad dŵr a'r biniau yn y rhan newydd, ac felly yn gyfrifoldeb i Gyngor Gwynedd. Anfonodd GE e-bost at SCH i gadarnhau hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Archwiliadau Mynwentydd -** Eglurodd y Clerc bod angen cynnal archwiliadau swyddogol o'r mynwentydd. Penderfynwyd y dylai'r archwiliadau gael eu gwneud ddwywaith y flwyddyn a hynny mewn parau. Cynghorwyr sydd â mynwentydd o fewn eu ward i archwilio.<br>GE a RW – Prenteg<br>JT a MLW – Golan<br>IE a GEH – Penmorfa<br>RJ a HP – Pentrefelin<br>JT a MLW – Cwm Pennant<br><br>Clerc i addasu'r ffurflenni archwilio a'u rhannu.<br><br>Adroddwyd bod yna olau solar wedi cael ei osod ar fedd ym Mynwent Prenteg. Clerc i gynnwys yn y wasg ei fod yn erbyn rheolau'r fynwent i osod goleuadau ar fedd.<br><br>Canmoliaeth wedi'i dderbyn gan aelod o'r cyhoedd am y gwaith ar ofal o Fynwent Bethel, Golan. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Gwaith llwybr 105 wedi ei orffen. Adroddwyd bod y contractwyr wedi gwneud gwaith taclus iawn. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | <u>Prenteg</u> - Yn dilyn damwain beic modur diweddar ar gyrion y pentref, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt ailystyried y penderfyniad i beidio â gostwng y terfyn cyflymder i 30mya.<br><br>Mae'r grid gwartheg ger Hendre Hywel yn dal i fod angen ei drwsio. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Adran Briffyrdd.<br><br><u>Pentrefelin</u> – Adroddodd RJ fod y perygl ger yr hen eglwys wedi'i ddatrys. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i aros i'r Adran Briffyrdd gwblhau gweddill y gwaith i ddatrys y broblem o ddŵr yn llifo o Dŷ'n Llech i'r ffordd fawr.<br><br>Mae'r gwair wedi'i dorri o amgylch y pentref.<br><br>Mae'r fan ddu yn parhau i barcio ar y briffordd ac ar draws y llwybr troed, gan greu anhawster i gerddwyr. Nodwyd nad yw'r Heddlu na'r Cyngor wedi gallu gweithredu hyd yma. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Heddlu i egluro'r sefyllfa gyfreithiol ynghylch parcio ar y palmant.<br><br>Adroddodd HP fod lori gymalog wedi ceisio mynd lawr Lon Tabor yn ddiweddar. Mae angen arwyddion gwell yng Nghricieth ac ar Lon Tabor ger Glan Byl. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Uned Draffig i ofyn am arwyddion gwell a hefo'r Adran Briffyrdd i ofyn iddynt glirio'r llanast a adawyd gan y lori.<br><br><u>Golan</u> - Adroddodd MLW bod yna waith taclus iawn wedi'i gwblhau yng Ngolan yn ddiweddar wrth dorri gordyfiant a chlirio ochrau'r ffordd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gridiau gwartheg sydd yn mynd drosodd o Gwm Ystradllyn i Brenteg dal angen sylw.<br><br><u>Bryncir</u> - Cafwyd cyfarfod safle arall bore'r 14eg o Fai gyda Swyddogion YGC a hefyd Swyddog o'r Asiantaeth Gefnffyrdd i drafod diogelwch y safle bws a'r ffordd ymlaen i geisio datrys y broblem. Yn dilyn y cyfarfod safle, bydd yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn cynnal chwiliadau tir manwl i gadarnhau maint y tir sydd ym meddiant Cyngor Gwynedd neu Lywodraeth Cymru ar hyd yr ardal ymyl ffordd ger lleoliad y lloches bresennol.<br><br>Os bydd y chwiliadau tir yn cadarnhau bod perchnogaeth y tir yn perthyn i Gyngor Gwynedd/Llywodraeth Cymru, byddent wedyn yn paratoi dyluniad newydd yn seiliedig ar ddarparu ardal blatfform mwy diogel a hygyrch i gerddwyr, ynghyd â lloches newydd. Fodd bynnag, maent yn pwysleisio y byddai pryderon yn parhau mewn perthynas â'r gwelededd yn y lleoliad hwn, gan na fyddai'r opsiwn yn datrys y materion sy'n ymwneud â cherddwyr yn gorfod camu allan i'r ffordd i ddangos i fysiau neu weld traffig sy'n dod tuag atynt.<br><br>Mae'r opsiwn amgen ger y Mart yn parhau i fod yn opsiwn posibl hefyd, gan y byddai hwn yn cynnig yr opsiwn mwyaf diogel i gerddwyr sy'n defnyddio'r safle bws. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch gwelededd traffig sy'n gadael y Mart a hefyd ger cyffordd Lôn Las Eifion.<br><br>Byddai symud ymlaen gyda'r naill opsiwn neu'r llall yn gofyn am broses ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru oherwydd y newidiadau tebygol i'r cyrbau ffordd a hefyd unrhyw bryderon pellach y gallent ddymuno eu codi cyn unrhyw waith adeiladu gael ei wneud.<br><br>Trafodwyd pryderon ynghylch cyflymder cerbydau sy'n teithio drwy'r pentref a bod yn rhaid i'r Cyngor Cymuned godi'r materion yma eto gyda'r Asiantaeth Gefnffyrdd/Llywodraeth Cymru. Clerc i wneud hyn.<br><br><u>Penmorfa</u> - Adroddwyd fod bysus yn gwrthod stopio tu allan i'r lloches bws a bod pobl yn gorfod sefyll yn y glaw i ddal y bws , ychydig o fetrau o'r lloches gan mai yno mae'r arwydd. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Drafnidiaeth.<br><br>Adroddodd IE bod Neuadd Penmorfa wedi derbyn grant gan Hufenfa De Arfon i brynu diffibriliwr a bod y diffibriliwr bellach yn ei le tu allan i Neuadd Penmorfa. |
| 10. | Grant Gwynedd Ni | Cafwyd awgrymiad i wneud cais am y grant i glirio a thacluso tu allan i'r Ganolfan Gymdeithasol ym Mhentrefelin. Awgrym arall oedd cael mainc newydd fwy cyfforddus tu allan i Stad Bryn Tyddyn gan greu llwybr hygyrch i'r fainc . Cafwyd awgrym gan IE |

| | | |
|---|---|---|
| | | Penmorfa i wneud cais i dacluso tu allan i'r Neuadd ym Mhenmorfa hefyd ac i wella maes parcio'r neuadd drwy roi gorchudd newydd o graidd caled. Clerc i wneud cais ac i gael prisiau. |
| 11. | Archwiliad Mewnol | Adroddodd y Clerc fod y cyfrifon wedi mynd mewn i'r Archwilydd Mewnol, Hughes Jones, Dyson yng Nghaernarfon ac y dylai'r cyfrifon a'r ffurflen flynyddol fod yn barod i gael eu cymeradwyo yn y cyfarfod misol ym mis Mehefin. |
| 12. | Gohebiaeth | a. Rhybudd Cau'r Ffordd o Garreg Frech i gyffordd yr A487, Penmorfa (dyddiad wedi pasio) |
| 13. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Cofnodion Pwyllgor Ardal Dwyfor Unllais Cymru – rhannwyd gyda phawb. |
| 14. | Cynllunio | Rhestrau: 6/4, 13/4, 20/4, 27/4<br><br>Ceisiadau Cynllunio<br><br>**C25/0633/36/LL –** Eglwys Pentrefelin, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0PU<br>Trosi adeilad yn uned gwyliau<br><br>**C25/0635/36/CR** Eglwys Pentrefelin, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0PU Addasiadau mewnol ac allanol i drosi'r adeilad yn uned gwyliau<br><br>Penderfynwyd **gwrthwynebu'r** ceisiadau uchod am y rhesymau canlynol:<br>- Mae perchnogion tai gwyliau presennol yn ffeindio hi yn anodd cyrraedd y rheolau gosod a threth y Llywodraeth, sef y trothwy o 182 diwrnod.<br>- Mae'r eiddo yng nghanol y pentref<br>- Nid yw'r ffordd mae'r eiddo arno wedi'i fabwysiadu ac mae cyflwr y ffordd yn hynod wael ac anaddas<br>- Yr effaith y gall eiddo gwyliau gael trigolion cyfagos e.e. cynnydd mewn traffig bob awr o'r dydd.<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>**NP2/16/446B -** Cais ôl-weithredol i godi lloches storio biniau ynghyd a llecyn caled concrit i fynedfa'r maes gwersylla. Gwersyll Ty'n Llan, Cwm Pennant. LL51 9AX. **Dim gwrthwynebiad.** |
| 15. | Materion Ariannol | Ceisiadau am arian: Dim<br><br>Monitro'r gyllideb : Dim gorwariant<br><br>Biliau i'w talu<br><br>Cyflog Clerc £347.32<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 87.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Madog Gardencare £180.00 (Toriad 1af Cae Chwarae Penmorfa)<br>Yswiriant Zurich £1,288.20<br><br><u>Ychwanegwyd</u><br><br>Madog Gardencare £390.00<br>(Ail doriad Cae Chwarae a Thoriad Cyntaf Mynwent Bethel)<br><br>***** Cymeradwywyd i dalu'r uchod *****<br><br><u>Derbyniadau</u><br><br>Cyngor Gwynedd £9,000 (Praesept)<br><br><u>Balansau Cyfrifon Banc</u><br><br>Cyfredol: £1,919.11<br>Cadw: £39,890.73 |
| 16. | Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/Gwefan | - Rheolau Mynwentydd<br>- Safle Bws Bryncir<br>- Cyfarfod Blynyddol<br>- Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd |